

Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Brynsiencyn

Dyddiad yr arolygiad: 29/06/2026

Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Brynsiencyn yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n ystyried y cyd-destun lleol yn effeithiol gyda llawer o ymweliadau addysgol sy'n helpu disgyblion i werthfawrogi eu hardal a'u treftadaeth.

Mae lles a diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth glir. Mae staff yn gwrando ar lais y disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd pwrpasol iddynt gyfrannu at eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol.

Ar draws yr ystod oedran, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu ystod fwriadus o weithgareddau ymarferol sy'n datblygu annibyniaeth, medrau datrys problemau a chwilfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd megis tegwch, parch a gofal yn bwrpasol, trwy wasanaethau a thrafodaethau dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar da er bod tueddiad i wallau iaith effeithio ar hyder ychydig o ddisgyblion i fynegi eu hunain yn Gymraeg. Mae diwylliant cryf o ddarllen wedi'i sefydlu ar draws yr ysgol, a gyda chefnogaeth effeithiol gan staff, rhieni a gofalmwyr, mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu darnau estynedig ar draws ystod o ffurfiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd a digidol ac yn eu cymhwyso'n fedrus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae cymorth rhagorol ar gael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn cael cefnogaeth gadarn i hyrwyddo a datblygu eu medrau a'u hyder.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol ac yn gweithio'n effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a'r gymuned. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus gan ganolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Ddatblygu medrau iaith lafar Cymraeg disgyblion ymhellach

A2 Cysoni cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026